

Richard Gregory 1901991 ECAD4009-C

Cyflwyniad

Bwriad y taflen gwybodaeth yma 'Dechrau wrth fy Nhraed' yw i drafod y berthynas rhwng y dysgwyr, yr ysgol a'r gymuned. Byddai yna defnyddio'r gwybodaeth ar y daflen i wneud cysylltiadau i waith damcaniaethwyr a fy mhrofiadau i mewn ysgol yn ystod y cyfnod pontio eleni. Mae theori Bronfenbrenner o'r System Ecologol yn glymu mewn i pob rhan o'r taflen gwybodaeth yma. Yn ol ei theori, mae pob elfen o amgylchedd y plentyn yn dylanwadu ar ei addysg. Felly mae ystod eang o effeithiau, pethau sydd yn yr amgylchedd agos (system meicro) er enghraifft y cartref ac yna pethau fel credodau a deffdau'r wlad sydd yn y system macro.

Damcaniaeth Bronfenbrenner

Mae theori 'Y System Ecologol' gan Urie Bronfenbrenner yn disgrifio'r amgylchedd sydd o amgylch unigolyn gan trefnu yn ôl yr effaith maen nhw'n cael. Gellir cysylltu hyn felly i bob elfen o'r taflen gwybodaeth yma gan ein bod yn ystyried y berthynas rhwng y dysgwyr, yr ysgol a'r gymuned. Mae'r damcaniaeth yn cael ei strwythuro gyda'r agweddau sy'n cael y dylanwad mwyaf dros yr unigolyn yn y canol, a'r elfennau sy'n cael llai o effaith wedi lleoli bellach o'r canol fel y gwelir yn y diagram.

1. **Y System Feicro** – Rhain sydd yn effeithio ar ddatblygiad yr unigolyn mwyaf. Y perthnasoedd agosaf i'r unigolyn megis teulu agos, ysgol a'r cartref yw hyn sydd yn rhyngweithio gyda'r plentyn.
2. **Y System Feso** – Mae sylweddau'r system yma yn cael ei ystyried i gael effaith mawr dros datblygiad yr unigolyn hefyd. Dyma lle mae cysylltiadau rhwng systemau ecologol arall yn digwydd. Er enghraifft rhwng rhieni ac athrawon neu rhwng y cartref a ffirndiau ysgol.
3. **Y System Eco** - Y system eco sydd yn ystyried effaithiau anuniongyrchol ar yr unigolyn. Pethau sydd o amgylch y plant ond ddim o rheidrwydd yn cyfathrebu gyda nhw.
4. **Y System Macro** – Dyma cysylltiadau pell o'r plentyn sydd dal yn cael dylanwad sylweddol arnynt. Mae crefydd a credodau'r plentyn (neu'r teulu) a trefn y wlad yn dylanwadu ar y plentyn er nad yw'n cael rheolaeth dros hyn.
5. **Y System Grono** – Hyn yw'r dylanwad sydd yn newid newid neu'n aros yn gyson dros amser. Hynny yw, newidiadau teuluol, yn y cartref, cyflogaeth rhieni ayb.


Cefndir fy ysgol lleoliad i

Dyma ffeithiau am fy ysgol lleoliad i:

- Ysgol 3-19 yw hi sy'n gweithredu trwy gyfrwng Gymraeg.
- Mae gan yr ysgol 687 o ddysgyblion i gyd, gan gynnwys 190 o blant yn yr Adran Gynradd.
- Ond 1.4% o'r disgyblion sydd ddim yn perthyn i grwp ethnig 'gwyn Prydeinig', 12.5% yw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru cyfan.
- Mae 6% o'r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim.
- Y nifer o blant sy'n cael eu hystyried i gael anghenion addysgol arbennig (AAA) yn yr ysgol yw 16.3%.
- Mae 41% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref, ond mae 90% ohonynt yn rhugl yn y Cymraeg.*

Ffeithiau o wefan mylocalschool.gov.wales
*O adroddiad Estyn 2017

Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory



Mae Ysgol ***** yn gosod pwysigrwydd a gwerth mawr ar gyswllt agos ac agored rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae'r berthynas arbennig hon yn hanfodol i lwyddiant pob disgybl ac yn rhoi sail gadarn a chefnogaeth gref i ddatblygiad a chynydd addysgiadol, cymdeithasol ac emysnol yr unigolyn.

Ysgol Lleoliad, 2019.

Ysgolion Reggio Emilia

Yn yr Eidal mae yna ardal sy'n fwy enwog am y ffordd mae'n ymdrin âg addysg o'r enw Reggio Emilia. Athroniaeth yw ffordd Reggio Emilia o dysgu sydd yn rhoi'r dysgwyr yn nghanol popeth. Y bwriad yw bod plant chwyfrydig, cryf, mentrus a galluog yn cael cyfle i archwilio i amgylchedd cyfoethog i wella eu dealltwriaeth o'r byd o'i amgylch. Mae'r athroniaeth yn pwysleisio ar tri peth yn bennaf sef y plentyn; yr amgylchedd a'r athro.

Mae'r ffordd yma o ddysgu yn annog y plentyn i ddilyn diddordebau eu hun i adeiladu eu syniadau ac i ddatblygu ar gyflymder ei hun. Annogwyd y plant i ddefnyddio unrwyf a phob sgil sydd ganddynt.

Bydd amgylchedd dysgu Reggio Emilia yn agored ac yn caniatáu chwarae sydd yn llifo. Mae'r amgylchedd yn fodlon i'r plant chwarae heb ymyrraeth oedolyn gyda adnoddau ar gael iddynt sydd yn ysgogi ei synhwyrau.

Mae disgywyl i athrawon Reggio Emilia i arslwyi y plant yn hytrach na cyfarwyddo'r dysgu. Bwriad hyn yw bod y plant yn cael datrys problemau ar ei ben ei hun. Rôl yr athro yw i gwtio plant tuag at ei diddordebau dros cyfnod gwahanol.

Enghraifft o ystafell dosbarth wedi'i ysbrydoli gan Reggio Emilia.



Dosbarth cynhwysol

Dosbarth cynhwysol yw amgylchedd dysgu ble mae pob aelod o'r dosbarth yn cael teimlad o gwerthfawrogiad. Dylai pob plentyn teimlo'n cartrefol yn yr ystafell dosbarth. Mae hyn yn helpu creu naws positif i'r blant datblygu'n cymdeithasol, datblygu sgiliau trawscwricwllwr ac yn hybu ymddygiad da. Trwy cadw safonau o ddosbarth cynhwysol mae'r dysgwyr yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r byd fel y son yn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Mae'r plant yn dod i deal amrywiaeth ymysg y byd gan cyweithio gyda disgyblion o wahanol cefndiroedd cymdeithasol, ethnigrwydd, crefydd, gallu ac anghenion.

Mewnbyn y dysgwyr i'r cwricwlwm

"Careful attention should be given to students' interests and aptitudes, and strong efforts should be made to determine the learning sequences and strategies that are likely to be meaningful for students." (N. Davidson, R. McKeen, T. Eisenberg 1973)

Er bod y dyfyniad uchod yn hen, mae'r awduron wedi adnabod yn gynnar pwysigrwydd mewnbwn disgyblion i'r hyn maen nhw'n dysgu. Yng Nghymru mae'r cwricwlwm newydd wedi cael ei gyhoeddi gyda pwyslais ar fwy o rhyddid i'r cwricwlwm i ysgolion. Golygryd hyn bod plant yr ysgol yn cael rhagor o mewnbwn i'w addysg nhw. Mae hyn yn bwysig i gadw diddordeb y dysgwyr yn y gwaith a'i ddatblygiad.

Dechrau wrth fy Nhraed

Cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol

Mae perthynas da rhwng yr ysgol a'r cartref yn hanfodol bwysig i gynnal awyrgylch gweithio positif i'r dysgwyr. Fel ysgol, wrth gyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni mae modd annog nhw i gymryd rhan yn addysg eu pliant. Trwy greu cysylltiad cryf rhwng rhieni ac athrawon mae perfformiad academaidd y plentyn yn gwella a c yn helpu i greu teimlad o gymuned rhyngddo pawb. Gellir hefyd codi lles cymdeithasol ac emosiynol y plentyn tu fewn a tu fas i'r ystafell dosbarth gan annog rhieni i ymfalchio mewn llwyddiant a ddatblygiant y plentyn. Mae cyswllt rhieni i'r ysgol yn rhan o bobeth yn mynd addysg. Er mwyn sicrhau y cyfle gorau i'r plentyn datblygu mae rhaid bod rhieni yn bwydo mewn i'r ysgol. Mae hyn yn ddechrau o bethau sylfaenol megis llyfrau darllen i fynd gartref, gwaith cartref, llythyron i rhieni a llyfr cyswllt.

Mae yna fforddau o bethau gellir gwneud wrth mynd i'r afael â cysylltiad i'r cartref, dyma rhai esiamplau o fy ysgol lleoliad i a rhai ychwanegol:

- **Forwm rhieni** – yn blynyddol mae rhieni yr ysgol yn ethol rhiant i gynrychioli nhw fel grŵp mewn cyfarfoddyd yr ysgol. Cyfle i'r rhieni cael llais yw hyn er mwyn trafod diddordebau eu pliant a rhoi mewnbwn i'r hyn bydd y plant yn dysgu. Mae pennaeth y forwm yn cynrychioli'r rhieni mewn cyfarfoddyd gyda'r llwyddraethwyr, y cyngor neu unrwyf mudiad allanol sydd yn cyfrannu i'r ysgol.
- **Diwrnod dathlu sgiliau** – dyma cyfle i'r plant arddangos eu hoff ddarn o waith maen nhw wedi cwblhau dros y flwyddyn. Gwahoddid rhieni i mewn i'r ysgol i am wasaneth ble mae'r plant yn trafod ac arddangos eu lwyddianau. Mae hyn yn ffordd gwyb o magu hyder y plant ac i gynnwys y rhieni yn y dysgu.
- **Polisi drws agored** – mae fy ysgol lleoliad i yn gweithredu bolisi drws agored. Ystyr hyn yw bod y rhieni/gwarchodwyr yn cael croeso i gysylltu â'r ysgol pryd bynnag mae rhywbeth yn codi. Mae modd i rhieni dod i ymweld yr athrawon, ffonio enu ebostio pe bai ei angen.
- **Datblygu hardal werdd** – yn fy ysgol lleoliad i, roeddent eisiau datblygu 'ardal werdd'. Gofynnir i'r rhieni i ddod i fewn i helpu datblygu'r prosiect trwy adeiladu, plannu a hyd yn oed bwydo'r ier gyda'r plant. Roeddy cyfle yma i weithio ochr yn ochr gyda'r plant o fewn yr amgylchedd ysgol wedi pleisio'r rhieni. Mae yna hefyd cyfleoedd trwy gydol y flwyddyn i rhieni ddod mewn i gynnal ardal werdd a pharhau i weithio gyda'r plant.
- **Nosweithu rhieni** – ar diwedd pob tymor mae fy ysgol lleoliad i yn cynnal nosweithu rhieni er mwyn i'r rhieni trafod cynydd a ddatblygiad y plant. Mae hyn yn ffordd effeithiol iawn i gynnwys rhieni mewn datblygiad eu pliant. Wrth trefnu rhain yn gyson mae'r rhieni yn cael cyfle i ddilyn datblygiad y plentyn a chael adborth o'r athrawon o sut mae modd datblygu sgiliau'r plentyn ymhellach tu allan i'r ysgol.

Rhestr cyfeirnod

Estyn (2017) Ar gael yn:

<https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Llanhari.pdf> (Darllenwyd: 11/02/20)

My Local School (2020) Ar gael yn: <http://mylocalschool.gov.wales/School/6745500?lang=cy> (Darllenwyd 11/02/20)

Ysgol Llanhari (2020) Ar gael yn: <http://www.llanhari.com/> (Darllenwyd: 11/02/20)

The Psychology Notes HQ (2019) Ar gael yn:

<https://www.psychologynoteshq.com/bronfenbrenner-ecological-theory/> (Darllenwyd 11/02/20)